# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 17 Gorffennaf 2012** |
| Amser: | **09:00 – 11:00** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400000_17_07_2012&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Darren Millar (Cadeirydd)**<br>**Mohammad Asghar (Oscar) AC**<br>**Mike Hedges**<br>**Julie Morgan**<br>**Gwyn R Price**<br>**Jenny Rathbone**<br>**Aled Roberts**<br>**Lindsay Whittle** |
| Tystion: | **Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Gillian Body, Assistant Auditor General, Wales Audit Office**<br>**Matthew Coe, Swyddfa Archwilio Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Tom Jackson (Clerc)**<br>**Sarah Beasley (Clerc)**<br>**Daniel Collier (Dirprwy Glerc)**<br>**Sarah Sargent (Dirprwy Glerc)**<br>**Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon
1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

### 2. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:
Eitemau 3,4, 5 a 7.

## 3. Ystyried Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)
3.1 Cytunodd y Pwyllgor ar ei gylch gorchwyl a'i ddull o graffu ar Fil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) a chytunodd i lansio ymgynghoriad cyhoeddus yn fuan.

## 4. Ystyried yr adroddiad drafft 'Rheoli Grantiau yng Nghymru'
4.1 Trafododd y Pwyllgor newidiadau i'w adroddiad drafft 'Rheoli Grantiau yng Nghymru', a fyddai'n cael ei gyhoeddi'n fuan, a chytunodd ar y newidiadau hynny.

## 5. Trafod yr adroddiad drafft 'Cynnydd o ran cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru'

5.1 Trafododd y Pwyllgor adroddiad i'r ymchwiliad, 'Cynnydd o ran cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru', a fyddai'n cael ei ystyried ymhellach dros e-bost, a chytunodd ar yr adroddiad.

## 6. Sesiwn Friffio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru 'Cyllid Iechyd'

6.1 Gwahoddodd y Cadeirydd Archwilydd Cyffredinol Cymru (ynghyd â Gillian Body, Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol, a Matthew Coe, Rheolwr Archwilio Ariannol) i roi briff i'r Pwyllgor ar adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru 'Cyllid Iechyd.'

6.2 Cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol friff i'r Pwyllgor ar y prif faterion sy'n codi o'i adroddiad ac atebodd gwestiynau'r Aelodau.

**Camau i'w cymryd:**

Cytunodd yr Archwilydd Cyffredinol i ddarparu:

- Nodyn yn dweud pryd cafodd Byrddau Iechyd Lleol gynnig broceriaeth gan Lywodraeth Cymru.

## 7. Opsiynau ar gyfer ymdrin ag adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru 'Cyllid Iechyd'

7.1 Cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad i Gyllid Iechyd.

## 8. Papurau i'w nodi
8.1 Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar Safon Ansawdd Tai Cymru.

8.2 Cadarnhaodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod ar 10 Gorffennaf 2012.

**Trawsgrifiad**